# Cyngor Cymuned Llandyfriog,

## Cofnodion.

Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd Nos Fawrth yr 6 Ebrill 2021 sef Cyfarfod : Zoom : oherwydd y Covid 19, o dan Gadeiryddiaeth y Cynghorydd Derrick Richards.

**1a, Yn Bresennol,**
Y Cynghorwyr , Ken Jones, Derrick Richards, Wyn Thomas, Sian Taylor, Ann Jones, Meinir Thomas a Ian James.

**1b, Ymddiheuriadau am Absenoldeb,**
Carol Davies, Dorothy James, Branwen Davies a Alan Davies.

**1c, I Gymeradwyo Cofnodion y Cyfarfod Misol yr 2/3/2021.**
(c) Ken Jones (e) Sian Taylor.

**2, Heddlu.**
Croeso i Jeff Kedward o Heddlu Dyfed Powys .
Cyfeiriwyd at broblemau cyflymder traffig yn Llandyfriog.
Mae yr Heddlu yn edrych i fewn ar achosion o gyflymder yn Penrhiwllan yn arbennig lle mae ceffylau yn cerdded ar yr heol.

**3, Cynllunio**

1, Angorfa, Llandyfriog - :A210196 Erection of an Agriculture Store shed to replace existing Pole Barn :
Dim Gwrthwynebiad.

2,: E H Factors unit 1-2 Garth Garage, Penrhiwllan, A210193 re a mobile burger van which is currently sited to the front left of EDAF's Car Park :
Dim Gwrthwynebiad.

3, Rama, Cwmcou, Castell Newydd Emlyn -: A210216- Rear extension to the dwelling and a part loft conversion.:
Dim Gwrthwynebiad.

4, 5 Heol y Bedw, Henllan. ; A210200 Demolition of rear conservatory and erection of a single story flat roof extension. Divert a shared access further down into the garden by approx.- 2 metres.:
Dim Gwrthwynebiad.

5, O & N Rees - Land adjacent to the Chapel house, Aberbanc.- A210169 - Minor amendments to planning A200131 access layout:
Dim Gwrthwynebiad.

6, Ffynnon Mamgu, Bangor Teifi - A210178 - Self Build, 3-4 Bedroom Bungalow.
Angen rhagor o fanylion am y Cais iw drafod.
Mae yn debyg fod llawer iawn o ddwr yn y cae ??

Fe wnaeth y Cynghorydd Sir, Wyn Thomas ddatgan diddordeb yn y ceisiadau.

**4, Gohebiaeth.**

Llythyr a ddaeth wrth Mrs Jill Sutton a Mr Marco Rebora yn cyfeirio at yr angen o godi spwriel a adawyd ger yr Afon Teifi gan y llifogydd diweddar.: River Clean:
Mae llawer iawn or Cynghorwyr yn barod i helpu gydar gwaith.
Cytunwyd i Anwen gysylltu a Mrs Jill Sutton I drefnu ymhellach.

:Huts Call & Chat:

## 5, Materion Ariannol.

| | |
|---|---|
| Mrs Anwen Evans | £345.22. |
| Mrs Gillian Davies | £230.30. |
| Trefhedyn- Coeden Nadolig | £ 35.00. |
| Un Llais Cymru | £ 306.00. |
| Swalec | £ 63.54. |
| | |
| Cyfanswm = | £ 980.06. |

(c) **Ken Jones (e) Meinir Thomas.**

## 6, Materion angen ei trafod.

Y Cynghorydd Ann Jones yn son fod Dolen Teifi yn mynd i dechre gwneud : Taith gerdded y Teifi.

Llawer iawn or Cynghorwyr eto yn hapus i gerdded y llwybrau i asesu faint or llwybrau sydd yn gerddadwy?

Credau pawb fod hyn yn syniad da iawn ir ardal.

Ger Cofgolofn y ddwy Rhyfel Byd yn Aberbanc mae yna blac arall yn gorwedd gydar ysgrifen yn cael ei effeithio gydar tywydd.

Plac yw hwn a ddaeth or Hen Eglwys yn Henllan .

Angen rhagor o ystyriaeth ynglyn ai adfer ai wneud yn saff

Fel mater o wybodaeth mae y hen adeilad sydd ar sgawr Penrhiwpal yr Hen Gwrt yn adeilad hanesyddol iawn ar Ystad y Bronwydd.

Cydymdeimodd y Cyngor gydar Cynghorydd Derrick Richards o golli Mrs Pat Jenkins.

A hefyd John a Huw Adams o golli ei mam Mrs Enid Adams yn ddiweddar.

Yn y Gymuned mae  Mr Turner  a Mrs Tony wedi ein gadael. Cydymdeimlwyd gyda'r teulu.

Mae y plant yn mynd yn ol ir Ysgol ar ol y Pasg.

Syfyllfa y Covid wedi gwella yng Ngheredigion gyda llawer iawn o bobol yn cael y frechiad yn nawr.

Un: set: o oleuadau traffig  wedi mynd o Llandyfriog.

Mae y  Cyngor Sir wedi cael arion i lanw  y: pot holes: yn Ceredigion.

Angen rhoi gwybod ir Cynghorydd Sir ple mae angen.

:Up date ar y Diffibulators: . Mae un yn mynd ger y Swyddfa Bost yn Henllan. Disgwyl i drydan gael ei gysylltu.

Ger y :Kiosk:  yn Llandyfriog. Disgwyl i glywed  wrth BT a hefid y : Land Registry:

## Cyfarfod Nesaf, ar y 4ydd o Fai am 7.00. ar y : Zoom: